

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Diodydd Alcoholig (Diwygio) (Cymru) 2023

Paratowyd y Memorandwm Hwn gan Uned Polisi a Strategaeth Bwyd Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad gan y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi golwg deg a rhesymol ar effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diodydd Alcoholig (Diwygio) (Cymru) 2023.

Lesley Griffiths AS
Gweinidog Materion Gwledig, y Gogledd a'r Trefnydd
7 Mawrth 2023

RHAN 1

1. Disgrifiad

1. Mae'r offeryn hwn yn diwygio Rheoliad yr UE a ddargadwyd sy'n ymwneud â labelu cynnwys alcohol ac ag amryfal fathau o rawnwin ar gyfer gwin er mwyn ystyried gofynion a bennwyd yn Atodiad 7A (Gwin a Gwirodydd Distyll), i'r Cytundeb Masnach Rydd rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Seland Newydd.
2. I weithredu'r newidiadau y cytunwyd arnynt yn y Cytundeb Masnach Rydd rhwng Teyrnas Unedig Prydain a Gogledd Iwerddon a Seland Newydd, mae angen i Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn diwygio'r Gyfraith berthnasol yr UE a ddargadwyd.
3. Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau a ganlyn yr UE a ddargadwyd:
 - Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/33 a oedd yn ategu Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n ymwneud â cheisiadau i warchod dynodiadau tarddiad, dynodiadau daearyddol a thermau traddodiadol yn y sector gwin. Mae'r Rheoliad yn ymdrin hefyd â'r weithdrefn ar gyfer gwrthwynebu, â chyfyngiadau ar ddefnyddio dynodiadau a thermau, diwygiadau i fanylebau cynnyrch, canslo gwarchodaeth, a labelu a chyflwyno.

Mae'r diwygiadau i Reoliad 2019/33 fel a ganlyn:

- A. I'w gwneud yn ofynnol i gryfder alcoholig gwirioneddol gwin a rhai cynhyrchion eraill yn y sector gwin gael eu nodi i ffigwr o ddim mwy nag un pwynt degol yn hytrach nag unedau canran neu hanner unedau e.e. 12.2% alc/vol.
 - B. I alluogi dangosydd amgen ("% alc/vol") i'w ddefnyddio gyda ffigwr sy'n nodi cryfder alcoholig gwirioneddol gwin a rhai cynhyrchion eraill y sector gwin y mae erthygl 44 o'r rheoliad hwnnw'n berthnasol iddo.
 - C. I alluogi gwin a rhai cynhyrchion eraill yn y sector gwin y mae dau neu ragor o fathau o rawnwin ar gyfer gwin (neu eu cyfystyron) yn cael eu henwi ar eu labeli i'w marchnata yng Nghymru lle mae 95% o'r cynnyrch (wedi'i leihau o 100%) wedi'i wneud o'r mathau hynny.
- Caiff Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr ei diwygio i alluogi "% alc/vol" i'w ddefnyddio fel dangosydd amgen wrth nodi cryfder alcoholig diod y mae'r Atodiad 12 hwnnw'n berthnasol iddo.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

4. Dim.

3. Y Cefndir Deddfwriaethol

5. Er mwyn gweithredu darpariaethau'r Cytundeb Masnach Rydd rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Seland Newydd, mae'r offeryn hwn yn diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargadwyd yn uniongyrchol ynghylch labelu diodydd alcoholig a chynhyrchion gwin sy'n cael eu marchnata yng Nghymru.
6. Caiff Rheoliadau Diodydd Alcoholig (Diwygio) (Cymru) 2023 eu gwneud wrth arfer pwerau Gweinidogion Cymru o dan adran 16(1)(e) (fel y darllenir gydag adran 16(3A)) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 ('Deddf 1990') ac adran 50(3) a pharagraff 16(1) o Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 ('Deddf 2020').
7. Mae'r pwerau o dan adran 16(1)(e) o Ddeddf 1990 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i osod gofynion neu waharddiadau, neu fel arall reoleiddio, mewn perthynas a labelu, cyflwyno marciau neu hysbysebu bwyd, a'r disgrifiadau y caniateir eu defnyddio ar gyfer bwyd. Ar y cyd ag adran 16(3A) o'r un Ddeddf, caiff rheoliadau a wneir o dan is-adran 16(1)(e) ddiwygio Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr.
8. Rhoddwyd y swyddogaethau yn adran 16(1)(e) o Ddeddf 1990, i'r Ysgrifennydd Gwladol. Fodd bynnag, mewn perthynas â Chymru, mae'r swyddogaeth honno bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru, yn rhinwedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (S.I. 1999/672) ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
9. Mae'r pŵer o dan baragraff 16(1) o Atodlen 5 i Ddeddf 2020, yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch y safonau marchnata y mae'n rhaid i rai cynhyrchion amaethyddol gydymffurfio â nhw ac mae adran 50(3) yn darparu pŵer i ddiwygio deddfwriaeth uniongyrchol a ddargadwyd gan yr UE.
10. Yn unol ag adran 48(4A) o Ddeddf 1990, mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried y cyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
11. Mae adran 48(3B) o Ddeddf 1990 ac adran 50(6)(c) o Ddeddf 2020 yn cadarnhau bod rheoliadau a wneir drwy arfer y pwerau uchod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol drafft.

4. Pwrpas ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth

12. Nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â'r darpariaethau labelu yn y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU a Seland Newydd (Atodiad 7A) sy'n ymwneud â gwin a gwirodydd distyll.

Mae'r newidiadau deddfwriaethol yn rhai technegol eu natur ac mae pob un ohonynt yn ychwanegu hyblygrwydd heb fawr o effaith ar y diwydiant diodydd alcoholig. Caiff busnesau barhau i ddefnyddio'u trefniadau labelu presennol, os dyna'u dymuniad.

Y newidiadau arfaethedig

- I. Caniatáu i gynhyrchion gwin ddangos cryfder alcoholig i un lle degol, er enghraifft 12.2% alc/vol. O dan ddeddfwriaeth yr UE a ddargadwyd, dim ond unedau cyfan neu hanner unedau y ceir eu defnyddio ar hyn o bryd wrth farchnata gwin, sef 12%-12.5%.
- II. Pan restrir sawl math o rawnwin ar label gwin, rhaid i'r mathau a enwir fod yn gyfanswm o 95% man lleiaf o gynnwys y gwin. O dan ddeddfwriaeth gyfredol yr UE a ddargadwyd, mae'n ofynnol i'r ganran honno fod yn 100%. Bydd y newidiadau'n golygu y gallai hyd at 5% o'r cynnwys gynnwys mathau nad ydynt yn cael eu dangos ar y label.
- III. Er mwyn caniatáu i'r term 'alc/vol' ymddangos yn syth ar ôl y ffigur ar label unrhyw ddiodydd alcoholig sy'n dangos faint o alcohol sydd wedi'i gynnwys yn y diodydd honno. Mae hynny'n caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran sut mae cryfder alcoholig yn cael ei labelu ar label diodydd alcoholig.

13. Bydd yr OS Cymreig yn dod i rym ar 28 Ebrill 2023, er mwyn cyd-fynd yn agos â'r OSau sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraethau'r DU a'r Alban, i gyfyngu ar unrhyw wahaniaeth rhwng sut mae'r deddfau yn berthnasol yng Nghymru a gweddill Prydain.

5. Ymgynghori

14. Yn unol â'r ddyletswydd o dan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori agored a thryloyw wedi'i dargedu gyda rhanddeiliaid o'r sector alcohol, o ran y cynigion hyn.
15. Aeth Llywodraeth y DU ati ar ran Llywodraethau Cymru a'r Alban i gynnal ymgynghoriad wedi'i dargedu ymhlith rhanddeiliaid perthnasol yn y diwydiant yn ystod y tair wythnos rhwng 2 Tachwedd a 23 Tachwedd 2022.

16. Gofynnwyd barn y rhanddeiliaid am yr effaith y gallai'r newidiadau arfaethedig ei chael, a daeth deg ymateb i law.
17. Roedd y mwyafrif yn o blaid y newidiadau a'r hyblygrwydd y byddant yn ei gynnig.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

18. Ni pharatowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn oherwydd na ragwelir unrhyw effeithiau arwyddocaol ar gyfer busnesau na'r sector cyhoeddus.
19. Sail y penderfyniad hwnnw oedd y ffaith bod yr OS yn ymdrin â mân ddiwygiadau technegol sy'n cael eu gwneud i ddeddfwriaeth yr UE a ddargadwyd, er mwyn rhoi hyblygrwydd i fusnesau wrth i'r Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU a Seland Newydd gael ei weithredu.
20. Mae hyn yn unol â'r polisi sydd i'w weld yn nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.